**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1297
Ein cyf/Our ref JJ/00999/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

07 Gorffennaf 2023

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ebrill yn ymwneud â Deiseb P-06-1297 Dod â "Llosgi Dan Reolaeth" i ben yng Nghymru. Mae'r llythyr yn egluro bod y pwyllgor deisebau wedi cytuno i ofyn a oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r cod statudol a'r rheoliadau ar losgi dan reolaeth yng Nghymru.

Fel yr eglurwyd yn yr ohebiaeth flaenorol JJ/02250/22 mae Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt (Cymru) 2008 a'i God cysylltiedig ar waith i sicrhau bod rheolaeth wrth losgi wedi ei gynllunio, dan reolaeth, yn briodol a diogel gan sicrhau buddion amgylcheddol a mesurau diogelu.

Ni chaniateir llosgi yn y Cod ar ardaloedd sensitif fel mawn dwfn a chorgors. Dylid tynnu sylw at yr ardaloedd hyn yn y Cynllun Rheoli Llosgi. Nid yw lleihau'r diffiniad o fawn dwfn o 50cm i 30cm yn debygol o arwain at ostyngiad yn yr ardaloedd llosgi gan ei fod yn aml yn anymarferol i fesur newidiadau mewn dyfnder mawn mewn amgylchedd amrywiol. Mae llosgi ar ardaloedd sydd â dyfnder sylweddol o fawn yn cael ei osgoi'n fwriadol gan sefydliadau cyfrifol. Yn hytrach, maent yn canolbwyntio ar rosydd sych gwastad gyda phriddoedd organo-fwynol lle mae llawer o gorlwynni rhos yn tyfu. Mae cynlluniau llosgi ar sawl safle hefyd yn gwahardd llosgi ar ardaloedd o fawn er mwyn atal difrodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Mae'n rhaid cael digon o weithwyr cymwys ar safleoedd llosgi. Mae'r rhan fwyaf o losgiadau'n digwydd heb anffawd. Yn anffodus, mae llawer o'r llosgiadau sy'n mynd allan o reolaeth yn aml yn rhai a ddechreuwyd gan ymarferwyr sydd ddim yn dilyn y cod. Mae llosgiadau 'tanau gwyllt' eraill sydd heb reolaeth a achosir gan losgi bwriadol neu esgeulustod yn broblem, yn enwedig ar gyrion trefol De Cymru, ond nid yw tanau gwyllt yn dod o dan Reoliadau Llosgi Grug a Glaswellt.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gosodwyd y dyddiadau llosgi yn 2008 ar ôl adolygiad llawn o ddata Ymddiriedolaeth Adareg Prydain ar gyfer Cymru ar y pryd. Ym mhrofiad tîm technegol Llosgi Grug a Glaswellt Llywodraeth Cymru, pan fydd ganddyn nhw geisiadau am drwyddedi i losgi ar ôl y dyddiad a ganiateir yn y gwanwyn, maen nhw'n archwilio'r safle'n drylwyr ar gyfer gweithgarwch adar ac yn aml nid oes gweithgarwch i'w gael. Ni fydd y tîm Llosgi Grug a Glaswellt yn argymell rhoi trwydded os ydyn nhw'n gweld unrhyw ymddygiad gan adar yn arddangos. Nid oes data newydd o Gymru ar ddyddiadau nythu i ysgogi adolygiad o'r dyddiadau llosgi a ganiateir ar hyn o bryd. Sylwch fod yn well gan yr hebog tramor nythu ar ymylon clogwyni uchel, sy'n golygu nad yw eu safleoedd nythu yn debygol o gael eu llosgi wrth losgi grug a glaswellt.

Wedi'i ddilyn yn iawn mae'r rheoliadau llosgi grug a glaswellt yn caniatáu llosgi cyfnodol, wedi'i reoli a allai fod o fudd i amaethyddiaeth, rheoli adar hela, cadwraeth bywyd gwyllt a'r amgylchedd ehangach. Gall sicrhau gwell hygyrchedd a gwell gwerth bwyd ar gyfer anifeiliaid pori gan gynhyrchu amrywiaeth o lystyfiant a chyfansoddiad sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwyllt ac adar hela gan gynnwys adar yr ucheldir megis y grugiar coch.

Fodd bynnag, gall llosgi annoeth fod yn wrthgynhyrchiol: difrodi tir pori gwerthfawr, planhigion, anifeiliaid, cynefinoedd a nodweddion hanesyddol; newid strwythur ffisegol, cyfansoddiad cemegol a hydroleg y pridd; effeithio ar ansawdd y dŵr a gwanhau nodweddion y tirwedd. Mewn rhai amgylchiadau gall llosgi hefyd fod yn anniogel, yn niweidiol, neu'n wastraff amser ac adnoddau.

O dan yr amgylchiadau hyn, gall y rheoliadau a'r Cod fod yn anodd eu gorfodi, yn enwedig gan fod trawsgydymffurfiaeth i ddod i ben oherwydd y bwriad i roi'r gorau i'r Taliad Sengl yn raddol. Mewn ymateb mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Sancsiynau Sifil gyda'r bwriad o sicrhau proses fwy cadarn i'r rhai sy'n diystyru'r rheoliadau, a fydd wedyn yn ysgogi unrhyw newidiadau gofynnol i'r Cod.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change